Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 37 Hydref 2016



**Rôn i wrth fy modd pan ddwedon nhw wrtho i,**
**"Gadewch i ni fynd i deml yr Arglwydd."**

*Annwyl ffrindiau,*

Un o nodweddion amlycaf y bywyd Cristnogol yw llawenydd a chaiff hynny ei annog yn gyson yn y Beibl. Er hynny, y feirniadaeth a glywir yn aml yw ein bod yn llawer rhy gwynfanus a digalon ein hysbryd, yn arbennig felly yn ein haddoliad cyhoeddus. 'Beth yw'r tristwch sydd ar gerdded …?' Ie, dyna sut mae hi yn yr Eglwys erbyn hyn, rwy'n ofni, ac er efallai na fyddai neb ohonom am gyfaddef ein bod yn sych-dduwiol rhaid cydnabod ein bod ychydig yn brin o wefr yr efengyl ac o'r gorfoledd sy'n perthyn i hanfodion y ffydd. Ond nid mater hawdd yw dod o hyd i'r 'llawenydd yn yr Arglwydd' mewn cyfnod sy mor ysbrydol sych a phan fo digalondid affwysol yn mynnu dylanwadu arnom. Gwyddom yn iawn am y tensiynau a'r anawsterau a all godi yn ein heglwysi y dyddiau hyn wrth inni geisio dirnad y ffordd ymlaen. At hynny, daw profiadau anodd a thywyll i'n rhan sy'n mynnu profi ein ffydd: profedigaethau, afiechyd, siomedigaethau a thrallod, ac mae'r pethau hyn yn sicr o adael eu hôl arnom. Felly, rhwng y cyfan nid yw'n syndod fod y llawenydd a brofwn yn anghyflawn a'i fod heb gael ei amlygu fel y dylai yn ein bywydau.

Mor bwysig felly yw dod o hyd i amser yng nghwmni Iesu oherwydd gall ef ein llenwi â llawenydd na all neb ei ddwyn oddi arnom (Ioan 16:22). Mae'r Efengylau yn hoff iawn o bortreadu Iesu fel dyn ifanc a barodd i lawer brofi o lawenydd ei gwmni a'i bresenoldeb – pobl a ryddhawyd o feichiau bywyd. Dawn arbennig a phrydferth yw'r ddawn sy gan rai i gynhesu calonnau a llonni ysbryd pobl. Dywedwyd un tro am gymeriad hynaws yn y gymdogaeth: 'Cyneuodd gymaint o danau mewn ystafelloedd oer'. Ac onid un felly oedd Iesu Grist? Fe ddaeth ef i'r byd i gynhesu ein calonnau â'i gariad, a'n llenwi â'i lawenydd. A chwarae teg i'r Iddew, roedd e'n ymwybodol iawn o'r angen i arddangos llawenydd wrth addoli gan fod ysbryd o ddiolchgarwch yn rhan hanfodol o'i fywyd ysbrydol: 'Y mae deddfau'r Arglwydd yn gywir, yn llawenhau'r galon.' (Salm 19:8) Disgrifiwyd Llyfr y Salmau (llyfr emynau'r Iddew) gan un ysgolhaig fel 'a smouldering volcano of praise' ac ymhlyg yn y moliant wrth gwrs yr oedd llawenydd. Yn wir, fe ddywedir yn aml mai gefaill mawl yw llawenydd.

Yn ei gyfrol *O Ddesg y Gweinidog* mae gan y diweddar Barchedig Elwyn Jenkins stori hyfryd am ferch fach a welai bopeth yn rhyfeddod ar hyd yr amser, gyda'r canlyniad ei bod wedi profi llawenydd mawr yn ei bywyd. Pan fyddai'n cael ei brecwast o'i blaen yn y bore byddai'n curo'i dwylo ar unwaith. Yn yr un modd pan fyddai hi'n eistedd ar y llawr mewn ystafell yng nghanol llu o deganau byddai eto'n curo'i dwylo. Pan fyddai ei rhieni yn mynd â hi i lan y môr i weld y tonnau, curo'i dwylo a wnâi yn ddi-ffael. Ni allai pobl lai na sylwi ar ymddygiad y ferch ac o ganlyniad gofynnodd rhywun i'w rhieni, 'Ydych chi'n poeni bod eich merch fach yn curo'i dwylo fel hyn drwy'r amser?' 'Dim o gwbl,' oedd eu hateb. 'Yr unig bryd y byddwn ni'n poeni yw pan fydd hi'n ymatal rhag gwneud.' Onid oes yna berygl ein bod ninnau heddiw wedi cyfarwyddo cymaint â neges yr efengyl, neu wedi cael ein diflasu cymaint gan anawsterau o bob math, fel ein bod bellach wedi peidio â churo dwylo mewn rhyfeddod a llawenydd?

Rydych chithau fel finnau, mae'n siŵr, wedi gwylio'r rhaglen *Songs of Praise* ar y teledu fwy nag unwaith ac wedi sylwi ar aelodau ambell gynulleidfa yn ymddangos mor llawen eu byd, yn curo'u dwylo wrth ganu ac yn bloeddio'r 'Haleliwia'. Gwn nad oes raid i ni wneud hynny mewn oedfa i brofi gorfoledd yr Efengyl ond mae'n bwysig ein bod ni'n dod o hyd i amser i fod yng nghwmni Iesu bob dydd, oherwydd gall y profiad hwnnw yn sicr ein llenwi â llawenydd na all neb ei ddwyn oddi arnom. Yn yr Arglwydd Iesu y mae tarddiad llawenydd. Geiriau'r Apostol Paul wrth yr eglwys yn Philipi oedd: 'Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch.' (Philipiaid 4:4).

Na foed cydweithwyr Duw
    byth yn eu gwaith yn drist
wrth ddwyn y meini byw
    i'w dodi'n nhemel Crist:
llawenydd sydd, llawenydd fydd
i bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.


Elfed

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris (Bugail)*

# Tudalen y Plant

Mae stori Ruth a Naomi yn yr Hen Destament – yn Llyfr Ruth. Pan oedden nhw eisiau bwyd, aeth Ruth i gasglu haidd oedd wedi ei adael ar ôl y cynhaeaf ym maes Boas. Pa lwybr fydd yn arwain Ruth at y maint mwyaf o haidd i fwydo Naomi a Ruth?



Mae rhai o'r geiriau yn y stori wedi'u cymysgu. Ysgrifennwch nhw yn gywir.

UTHR _ _ _ _    AHIDD _ _ _ _ _    SEMA _ _ _ _

MANIO _ _ _ _ _    SABO _ _ _ _    GUCALS _ _ _ _ _

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Hydref**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i **Swyn Dafydd**, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 1 Hydref | Oedfa Genhadol Chwiorydd yr Henaduriaeth<br>Seion, Capel Seion, am 2.30 o'r gloch<br>I annerch: Y Barch. Nan Powell-Davies |
| 3 Hydref | Pwyllgor Bugeiliol yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 5 Hydref | Cyfarfodydd yr Henaduriaeth<br>yng Nghapel Blaen-plwyf am 1.30 a 5 o'r gloch |
| 9 Hydref | Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth<br>dan arweiniad y Bugail<br>yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Ymgyrch Plant mewn Angen |
| 10 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 pm |
| 11 Rhagfyr | Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10 o'r gloch<br>gyda phlant yr ysgol Sul unedig yng Nghapel y Garn<br>Casgliad tuag at yr ysgol Sul |
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun am 9 o'r gloch ar fore'r Nadolig<br>dan arweiniad y Bugail yng Nghapel y Garn |
| | Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org |
| | Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn |

Henaduriaeth Ceredigion/Gogledd Penfro

## Oedfa Genhadol y Chwiorydd

Seion, Capel Seion

Dydd Sadwrn, 1 Hydref, 2.30 o'r gloch

Llywydd: Y Barchedig Llunos Gordon

I Annerch: Y Barchedig Nan Powell-Davies, Yr Wyddgrug

### Encil

Cyrhaeddais ddrws y capel
Ddeng munud cyn yr awr
Mewn gobaith cael lawrlwytho
Gyda'r Gwrandawr Mawr.

Rhyw ddyrnaid o addolwyr
Oedd yno o fy mlân,
Uchel eu cloch yn dadlau
Ffaeleddau mawr a mân

A thybiais yn yr oedfa
A'r cleber yn fy nghlyw
I'r Arglwydd sleifio allan
Am nad yw heddiw'n Dduw.

*Vernon Jones*

# clwb ieuenctid cristnogol

rhan o fenter gydenwadol
eglwysi Gogledd Ceredigion

**hydref 2016**


**Cyswllt:**
**ZoeGlynneJones34@gmail.com**
**01970-611516 neu 07584411524**
**fb Menter Gobaith**
**Y Parchedig Wyn Rhys Morris:**
**berwynfa@btinternet.com**


**croeso i bawb o flwyddyn 4 i fyny**

**15 Medi** 7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**29 Medi** 6.00 - 7.00 bl. 4/5/6
7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**13 Hydref** 6.00 - 7.00 bl. 4/5/6
7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**27 Hydref Lan drwy'r Nos!**
**Festri Capel y Garn**
**digwyddiad i godi arian at elusen**

**3 Tachwedd** 6.00 - 7.00 bl. 4/5/6
7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**17 Tachwedd** 6.00 bl. 4/5/6
7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**1 Rhagfyr** 6.00 - 7.00 bl. 4/5/6
7.00 - 8.30 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**Llun 19 Rhagfyr**
Canu Carolau: manylion i ddilyn


LLANUWCHLLYN


Stori Mary Jones
Mary Jones Story

**Trip Ysgol Sul Unedig Bow Street**

Roedd y bws yn llawn fore Sul, 17 Gorffennaf, eleni pan aeth trip Ysgol Sul Unedig Bow Street i Ganolfan Byd Mary Jones yn Llanycil, ger y Bala.

Ar ôl siwrne gysurus o Geredigion i Feirion gyda'r Bonwr Alan Wynne Jones yn cyflawni swyddogaeth y sylwebydd yn gampus, daeth y cam cyntaf i ben ar orsaf Pen-bont. Yn y fan honno gadawodd pawb y bws a theithio ar y trên bach o gwmpas Llyn Tegid i Lanuwchllyn, taith atgofus i'r rhai hynny ohonon ni oedd yn ddigon hen i gofio arogl mwg trenau slawer dydd!

Cawsom orig ddifyr yng ngorsaf Llanuwchllyn yn mwynhau paned a sgwrs cyn i'r bws ddod i gwrdd â ni unwaith eto i fynd â ni i Eglwys Llanycil, sydd bellach yn Ganolfan Byd Mary Jones, dan nawdd Cymdeithas y Beibl.

Ar ôl cyflwyniad agoriadol gan Nerys Siddall cafwyd cyfle i gofio a dathlu taith enwog y ferch ifanc, dlawd o Lanfihangel -y-Pennant i'r Bala, yn y flwyddyn 1800. Dyma'r daith 26 milltir dros fynydd a mawnog a ysbrydolodd Thomas Charles i sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804. Ac yno, y tu allan i'r eglwys, ym mynwent Llanycil, mae bedd Thomas Charles.

Rhwng y cyflwyniad agoriadol a'r arddangosfa o greiriau, sy'n cynnwys copi o'r Beibl gafodd Mari Jones gan Thomas Charles y diwrnod hollbwysig hwnnw, y lluniau, y ffilmiau a'r paneli gwybodaeth, roedd yno rywbeth i ddiddori pob oed, o'r ieuengaf i'r hynaf.

Cyn troi trwyn y bws tuag adref aethom yn ôl i Lanuwchllyn unwaith eto, i Dafarn yr Eryrod y tro hwn, i gael clamp o ginio dydd Sul tra, tra blasus, a hynny mewn cwmni cytûn a difyr.

Diolch o galon i'r rhai drefnodd y wibdaith. Bu'n llwyddiant.

Ble gawn ni fynd y flwyddyn nesaf?

*Llinos Dafis*

# Gwasanaeth y Beibl Byw



*Gruffydd Aled Williams, a ddarllenodd o gopi ffacsimili o Feibl William Morgan (1588)*

Bore Sul, 11 Medi, trefnwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Garn i nodi Blwyddyn y Beibl Byw, sydd eleni'n dathlu Gair Duw yn yr iaith Gymraeg. Cymerwyd rhan gan yr aelodau a chafwyd darlleniadau o wahanol fersiynau o'r ysgrythur yn Gymraeg – o Destament Newydd William Salesbury (1567), Beibl William Morgan (1588) hyd at beibl.net (2015) – yn ogystal â cherddi pwrpasol.

Yn y rhan gyntaf, 'Ailddarganfod Gair Duw', cafwyd hanes Esra, o lyfr Nehemeia, yn darllen y Beibl i'r genedl yn yr awyr agored wedi iddi ddychwelyd i Jerwsalem. Yn dilyn hynny, yn yr ail ran, cafwyd darlleniad a myfyrdod ar Salm 119, 'Goleuni Gair Duw'. 'Y Gair sy'n rhoi Bywyd' oedd thema'r drydedd ran, gyda'r pwyslais ar Ioan yn rhannu'r profiad o nabod Iesu, sef Gair Duw; yn y rhan olaf canolbwyntiwyd ar 'Hau'r Gair', drwy gyfrwng dameg yr heuwr.

'Ymrwymiad' ymgyrch y Beibl Byw yw ein bod:

- yn darllen y Beibl yn gyson;
- yn ceisio ei ddeall yn llawnach;
- ac yn ei weithredu'n gywirach.




Ar ddiwedd y gwasanaeth, rhannwyd llyfryn a nod llyfr ymgyrch y Beibl Byw i bawb oedd yn bresennol.




Yn ddiweddar, derbyniodd Capel y Garn y dysteb hardd hon yn rhodd gan Mrs Gwenan Rhys-Price. Cyflwynwyd y dysteb i'w hen dad-cu, y cerddor a'r cyfansoddwyr adnabyddus J. T. Rees gan aelodau Capel y Garn ym mis Ebrill 1921 i gydnabod ei wasanaeth i'r eglwys am 40 mlynedd fel blaenor, athro ac arweinydd cerddorol. Ac felly mae'n briodol iawn ei bod unwaith eto i'w gweld yn Festri'r Garn. Diolch i Gwenan a'r teulu am eu haelioni.

## Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog i’r canlynol:

Rhun Penri ar ennill gradd anrhydedd o Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, a phob dymuniad da iddo yn ei swydd gyntaf fel athro yn Ysgol Gynradd Pen y Pil, Caerdydd – ysgol cyfrwng Cymraeg yn nwyrain Caerdydd;

Osian Penri ar ei swydd newydd yn hyfforddi i fod yn llawfeddyg yn Ysbyty’r Waun, Caerdydd;

Vernon Jones ar ennill gwobrau llenyddol mewn nifer o eisteddfodau dros yr haf, yn cynnwys Cystadleuaeth yr Englyn Ysgafn yn yr Eisteddfod Genedlaethol;

Y Parch. Ddr Nerys Ann Brown ar ei hordeinio’n offeiriad yn Eglwys Sant Ioan, Perth;

yr ieuenctid sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau yn ystod yr haf a’r rhai sydd wedi ennill amrywiol wobrau mewn sioeau yn yr un cyfnod.

## Rhestr Flodau’r Garn

| **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** |
|---|---|---|
| 2 (Noddfa) | 6 Pantyperan | 4 (Noddfa) |
| 9 (Noddfa) | 13 | 11 (Coeden Nadolig) |
| 16 | 20 | 18 Bodhywel |
| 23 | 27 Mynydd Gorddu | 25 Bodhywel |
| 30 Eryl | | |

Os hoffech chi roi blodau ar un o’r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

# Hydref

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Vernon Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**2** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn dan arweiniad y Barch. Judith Morris

3 Pwyllgor Bugeiliol Gofalaeth y Garn
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

5 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Oedfa ddiolchgarwch dan arweiniad y Barch. Enid Morgan

**9** Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel Noddfa am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at ymgyrch Plant mewn Angen

10 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

**16** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore; oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Talentau'r Fro', yng ngofal Rhodri a Cêt Morgan, Glanfread

**23** Y Parch. Terry Edwards

**30** Y Parch. Ddr John Tudno Williams

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn y Garn / Bethlehem*

2 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Prynhawn yng nghwmni Glan Davies

**6** Oedfa'r bore dan ofal yr aelodau
Oedfa'r hwyr dan arweiniad Mr Huw Roderick

**13** Y Parch. Elwyn Pryse

18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Noson o Bictiwrs' yng nghwmni Wynne Mel
Canolfan y Morlan, Aberystwyth

**20** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

22 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o'r gloch

26 Bore coffi a stondin cynnyrch cartref dan ofal y Chwiorydd
Festri'r Garn rhwng 10 a 12 o'r gloch

**27** Dr Rhidian Griffiths

28 Pwyllgor CIC
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Eddie T. Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yn y Garn*

**4** Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa’r hwyr yn y Garn
dan arweiniad y Parch. Roger Ellis Humphreys

7 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
‘Naws y Nadolig’ gyda Joy Jones

**11** Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10 o’r gloch
gyda phlant yr ysgol Sul unedig yng Nghapel y Garn
Casgliad tuag at yr ysgol Sul

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Dathlu’r Nadolig’

**18** Oedfa’r bore i’w threfnu
Gwasanaeth y Gair a’r Geiriau
dan ofal y Bugail am 5 o’r gloch

**25** Oedfa gymun ar fore’r Nadolig
dan arweiniad y Bugail am 9 o’r gloch

## Emyn a Thôn

Yn *Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2016–2017* (neu'r *Detholiad*) mae emyn o waith Dilys Baker-Jones a thôn gan Alan Wynne Jones.

Cyhoeddwyd emyn Dilys gyntaf yn rhifyn Gwanwyn 2015 o 'Gair o'r Garn'. 'Ffydd' yw thema'r emyn ac eglura Dilys mai 'emyn o brofiad personol ydyw – profais gadernid a chynhaliaeth Crist yn fy mywyd bob dydd wrth frwydro trwy brofedigaethau llymaf bywyd, ac atseinir hynny yn y geiriau'.

Pan sylweddolodd Alan nad oedd unrhyw dôn yn *Caneuon Ffydd* y gellid canu geiriau Dilys arni, aeth ati i gyfansoddi tôn arbennig ar ei chyfer, sef Gaerwen.

Canwyd y geiriau ar y dôn am y tro cyntaf yng nghyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn Capel y Garn ar Sul cyntaf 2016, a hyfrydwch yw eu gweld wedi'u cyhoeddi at ddefnydd ehangach.

Llongyfarchiadau i Dilys ac i Alan.

**Banc Bro Llanfihangel Genau'r Glyn**

**NOSON I'R GYMUNED**

**B A L C H D E R   B R O**
**DATHLU LLWYDDIANT EIN BEIRDD A'N LLENORION**

**Gruffydd Aled Williams**
Enillydd y Categori Ffeithiol Greadigol, Llyfr y Flwyddyn 2016

**Vernon Jones**
Pencampwr Cystadlaethau Llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol

**Anwen Pierce**
Bardd Cadeiriol Eisteddfod Talaith Powys

**BETHLEHEM, LLANDRE**

Nos Fercher, 19 Hydref 2016

7.30 yh

Paned a chacen

Mae croeso cynnes i bawb

## Pen-llwyn

Roedd y 10fed o Orffennaf yn Sul arbennig yma ym Mhen-llwyn wrth i ni groesawu aelodau'r ofalaeth atom i gydaddoli. Gan ei bod yn Sul y Teulu cawsom gyfraniadau gan blant ac ieuenctid yr eglwys. Wrth i ni fel Cymry ddathlu llwyddiant ein tîm pêl-droed cenedlaethol roedd ein Gweinidog wedi paratoi gwasanaeth amserol yn gysylltiedig â'r pel-droedwyr. Roedd y plant wrth eu boddau yn enwi'r arwyr hyn wrth i'w lluniau ymddangos ar y sgrin ynghyd â'u rheolwr, Chris Coleman, a hyfryd oedd gweld eu hwynebau pan ymddangosodd llun Gareth Bale. Gan fod y Parch. Wyn Morris yn gefnogwr brwd o dîm Cymru daeth â chrys Cymru ac eitemau eraill i'w dangos i'r plant.

Mewn cyferbyniad, datblygodd ein Gweinidog yr hanes am Iesu Grist a'i ddisgyblion Ef, ei dîm Ef fel petai. Pwysleisiwyd enwau'r deuddeg disgybl a dangoswyd y modd y gweithredent hwy dros Iesu.

Rydym ni bob un yn perthyn i 'dîm' ein Harglwydd, ac fel y bu i ni weld teyrngarwch aelodau tîm Cymru, eu hundod a'u brwdfrydedd dros eu gwlad, gweddïwn ar i'r un ymrwymiad gael ei ddeffro ym mhob un ohonom ninnau – gymaint mwy ein cyfrifoldeb ni na thîm Cymru hyd yn oed.

Gwasanaeth bendithiol iawn cyn cymdeithasu dros baned yn y festri.

*Yr Ysgol Sul*

Mae'r ysgol Sul wedi ailddechrau ar yr 11eg o Fedi, a da oedd gweld y ffyddloniaid wedi dychwelyd ar ôl gwyliau'r haf. Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau newydd yn ystod y tymor: 'hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd a phan heneiddia nid ymedy â hi'. Dyna ein gobaith wrth i ni ddod yn hyderus o Sul i Sul i ddysgu mwy am y Beibl ac am Iesu Grist a'i gariad tuag atom.

*Heulwen Lewis*

## Seion

Brynhawn Sul, 19 Mehefin, cynhaliwyd oedfa yng Nghartref Gofal Tregerddan gan rai o aelodau Ysgol Sul Seion. Croesawyd ni'n gynnes fel arfer gan Kathleen Lewis, a mawr yw ein dyled iddi hi am drefnu'r oedfaon yno bob Sul. Anerchwyd ar destun Soar-y-mynydd gan John Gwynn Jones, gan gyfleu hanes, rhamant a naws y capel bach yn annwyl a didwyll iawn. Cymerwyd rhan hefyd gan Chris Morell, Olwen Jones ac Ina Tudno.

Cynhaliwyd Gŵyl yr Ysgolion Sul ar 26 Mehefin yn y Morlan eleni eto a daeth nifer dda o blant, rhieni ac athrawon ysgolion Sul Ceredigion ynghyd i ddathlu, gan gynnwys aelodau Ysgol Sul Seion. Trefnwyd y gweithgareddau gan Zoe Jones, dosbarthwyd tystysgrif i bob ysgol Sul am eu gwaith drwy'r flwyddyn a gwnaed casgliad tuag at uned Pili Pala, Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau. Paratowyd lluniaeth gan aelodau Ysgol Sul y Morfa. Digwyddiad hyfryd eleni eto ac yn sicr yn werth ei gynnal i ddathlu bodolaeth a pharhad ein hysgolion Sul.

Ar Sul olaf blwyddyn yr ysgol Sul yn Seion, 17 Gorffennaf, roedd y gwasanaeth cloi yng ngofal y plant hŷn. Cyflwynwyd ganddynt Ddameg y Deg Gwahanglwyf, a hwythau'n rhyfeddu taw dim ond un a ddaeth yn ôl i ddiolch i Iesu am y wyrth! Yn dilyn, cynhaliwyd barbeciw ar iard Neuadd y Paith a daeth nifer o rieni a chyfeillion i ymuno â ni yn y dathlu. Diolch i Haydn Williams a'r teulu am y wledd.





Ddydd Sul, 21 Awst, ymgynullodd tri ar ddeg ar hugain o bererinion brwd tu allan i'r capel i gychwyn ar ein pererindod flynyddol, a drefnwyd gan John Gwynn Jones a'r teulu. Teithio i dde'r sir fu ein hanes eleni, gan gychwyn ym Melin Ganol Llanrhystud, a gweld yr olwyn ddŵr yno'n troi a chael cyfle i brynu'r cynnyrch, sef blawd gwenith. Ymlaen wedyn i Cross Inn a throi i gyfeiriad Bethania; pasio hen siop sinc y pentref ac ysgol Penuwch – y ddau bellach wedi cau – a'r eglwys oedd wedi ei throi'n dŷ byw. Aed heibio i gartref y diweddar brifardd John Roderick Rees a chyrraedd capel Penuwch ar gyfer ein hoedfa. Daeth nifer o'r aelodau lleol i ymuno â ni yno. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Eirlys Jones, Val Davies, Susan Lloyd Hughes, Hawys Hughes, Elen Lewis, John Tudno, Eos a Swyn Dafydd a rhannodd gan Beryl Davies ei hatgofion. Ar derfyn y daith braf fu cyrraedd Teile, Bwlch-llan, am de prynhawn arbennig iawn o flasus a chroeso cynnes Siân a'r teulu.

**Diolchgarwch Seion**

Nos Fawrth, 18 Hydref, 7.00 o'r gloch

Llywydd: Y Parchedig Wyn Morris

Cennad gwadd: Y Barchedig Beti Wyn James, Caerfyrddin

Croeso cynnes

## Ordeinio'r Barch. Ddr Nerys Ann Brown

Bore Sul, 28 Awst, cychwynnodd tair ohonom ar y daith i Perth yn yr Alban i weld ein cyfaill Nerys Ann yn cael ei hordeinio'n offeiriad yn Eglwys Esgobol yr Alban. Cyrhaeddom Perth yn ddigon cynnar i gwrdd â Nerys yn yr eglwys a chael cyfle i edrych o amgylch.

Eglwys ddigon arferol yr olwg yw Eglwys Sant Ioan o'r tu allan ond mae'r tu mewn yn gyfuniad hynod o'r hen a'r modern – trawstiau pren, ffenestr liw drawiadol a thipyn o wydr. Mae'r defnydd o wydr yn glyfar: mae iddo bwrpas ymarferol o rannu'r gwahanol ofodau ond mae hefyd yn gwneud y lle yn fwy golau ac yn creu naws agored a chroesawgar. Drysau gwydr sydd i'r brif fynedfa hefyd; gellir edrych i mewn i'r adeilad o'r stryd ac y mae hyn eto yn cyfleu'r syniad taw eglwys agored a chroesawgar yw hon.

Mae yno neuadd hefyd lle cynhelir pob math o weithgarwch, a gardd fechan (y mae modd ei chyrraedd o'r stryd) – llecyn tawel i eistedd a myfyrio.

Roeddwn yn gallu gweld pam fod Nerys wedi setlo mor dda yma yn ystod ei blwyddyn fel curad yn yr eglwys. Mae hi a'r rheithor – y Parchedig Graham S. Taylor – yn cyd-dynnu'n dda, a rhyngddynt y maent wedi creu eglwys hyfyw lle mae ffydd a gwerthoedd Cristnogol yn elfen naturiol o'r holl weithgarwch.

Erbyn 6 o'r gloch yr oedd yr eglwys yn orlawn; heblaw am aelodau'r eglwys a nifer o Bresbyteriaid (offeiriaid yn yr Eglwys Esgobol), roedd yno ffrindiau a theulu o Gymru, Dunblane a thu hwnt, ac yn y blaen, mewn gwisg wen, gyda Davie wrth ei hochr a gwên fawr ar ei hwyneb, yr oedd Nerys yn aros yn eiddgar am y foment hon.

Yr oedd y gwasanaeth yn un hapus, gorfoleddus ac urddasol o dan arweiniad y Parchedicaf David Chillingworth, Esgob St Andrews, Dunkeld a Dunblane, Prif Esgob Eglwys Esgobol yr Alban, ac roedd yn amlwg bod ganddo ef a phawb arall oedd yn rhan o'r achlysur feddwl mawr o Nerys.

Cafwyd emynau, litwrgi, darlleniadau a phregeth, ac yna cyflwynwyd Nerys i'w hordeinio i Drefn y Presbyteriaid gan y Rheithor Graham a Tony Mason. Esboniodd yr Esgob beth oedd rôl Presbyter a bu'n rhaid i Nerys ddatgan ei pharodrwydd i wasanaethu yn y rôl honno. Rhaid oedd cael cydsyniad y gynulleidfa i'r ordeinio hefyd.

Nerys a'r Parchedicaf David Chillingworth, Prif Esgob Eglwys Esgobol yr Alban



Ar ôl y litani, daeth yr holl Bresbyteriaid ymlaen a gosod eu dwylo ar Nerys. Rhoddwyd gwisg y Presbyter amdani a'i chyflwyno â Beibl, caregl a phaten, a dyna lle roedd yr offeiriad newydd yn sefyll o'n blaenau, yn derbyn llongyfarchiadau ei chyd-offeiriaid.

Ar ddiwedd y gwasanaeth roedd Nerys yn cydweinyddu'r cymun, ac yn gwneud hynny yn y Gymraeg i'w ffrindiau a'i theulu. Cymun yn Gymraeg yn Perth – am brofiad arbennig!

Bu'n fraint i mi gael rhannu siwrnai Nerys ar hyd y blynyddoedd; heb os y mae hi wedi ei galw i'r gwaith hwn. Mae'n ddatblygiad naturiol i'r gwaith gwych a wnaeth hi yn Dunblane, yn arbennig felly gyda phlant a theuluoedd. Am y tro, ei dymuniad yw aros yn Eglwys Sant Iosn i gydwasanaethu gyda'r Rheithor Graham a pharhau â'u gwaith, a bydd trigolion Perth ar eu hennill oherwydd hynny.

*Carol Jenkins*

## John Rees (1927–2016)

Daeth y newyddion trist ddiwedd Mehefin am farwolaeth John Rees, Talar Deg, y Dolau. Brodor o Fethania oedd John, ac roedd ei dad, a fu farw pan oedd John yn ifanc, yn hanu o deulu enwog ym myd y cobiau Cymreig. Roedd John hefyd yn gefnder i'r bardd John Roderick Rees.

Mynychodd yr ysgol leol ym Mhenuwch, cyn ennill ysgoloriaeth i fynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Tregaron. Aeth i weithio gyda Taylor Lloyd, fferyllydd yn Aberystwyth, ac yna i wneud ei wasanaeth milwrol yn y fyddin. Yn dilyn hynny, astudiodd fferylliaeth yng Nghaerdydd ac ennill y cymwysterau i gyflawni'r gwaith. Bu'n gweithio i fwrdd ysbytai yn ne Cymru, cyn ei benodi yn 1974 yn Brif Fferyllydd Ysbyty Bronglais. Ac yno y bu hyd ei ymddeoliad.

Priododd â Mabel, merch o Sir Fynwy, ac ymaelododd y ddau yng Nghapel y Gerlan, y Borth, lle bu John yn drysorydd diwyd am flynyddoedd. Byddai Mabel ac yntau'n hoff iawn o deithio ac fe fu i'r ddau ymweld â llawer o wahanol wledydd ledled y byd.

Yn y blynyddoedd ddiweddar, ymaelododd John â Chapel y Garn a bu'n ffyddlon iawn yno tra gallai, cyn i'w iechyd ddirywio ac iddo gael gofal yng Nghartref Plas Cwmcynfelin.

Roedd yn ŵr addfwyn ac yn uchel ei barch gan y rhai a weithiau oddi tano yn y fferyllfa ym Mronglais, ac yn gymeriad poblogaidd a diymhongar. Diolch am y fraint o gael ei adnabod.

*Y Parch. Elwyn Pryse*

## David James (1927–2016)

Trist yw cofnodi ymadawiad David Bryan James, Dolhuan, Llandre – gŵr yn wreiddiol o Tyngarn, Myddfai, Sir Gâr. Aeth i'r ysgol gynradd yn y pentref cyn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Llanymddyfri, i Brifysgol Bangor i astudio bioleg a llysieueg botaneg, a Choleg yr Iesu, Caergrawnt. Ers yn ifanc iawn, bu'n ddarlithydd yn y Brifysgol yn Aberystwyth tan ei ymddeoliad. Roedd yn briod â Dr Elinor James, a'i rhagflaenodd bum mlynedd yn ôl.

Ar ôl ymddeoliad ei rieni o'r fferm ym Myddfai, daethant i fwy drws nesa i Dolhuan, sef Brynhir, Llandre, lle bu hwythau, Ifor a Mattie James, yn aelodau ffyddlon o Gapel y Garn.

Roedd David ac Elinor yn aelodau yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, Aberystwyth, lle derbyniodd David James eleni dystysgrif am ei wasanaeth fel blaenor am hanner can mlynedd. Roedd yn ffyddlon, ac yn hael ei gyfraniad, yng ngwasanaeth y nos yng Nghapel y Garn yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd.

Ef oedd awdur *Myddfai: its land and peoples*, *Ceredigion: its natural history*, a llawer o erthyglau ac ysgrifau eraill.

Bu farw ganol Awst yn Hafan y Waun, lle cafod y gofal gorau posib. Claddwyd ei weddillion ar ddydd olaf Awst ym mraint y teulu ym mynwent y Garn.

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn.'

*Beryl Hughes*

## Swper Cynhaeaf y Garn



Nos Wener, 16 Medi, cafwyd noson braf o fwynhau bwyd blasus a chwmni difyr yn Swper Cynhaeaf y Garn a gynhaliwyd ym Methlehem, Llandre.

Roeddem yn falch o groesawu nifer o gyfeillion Capel Noddfa, a ymunodd â ni hefyd. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.



Offrymwyd y fendith gan y Parch Wyn Morris, a llywyddwyd y noson gan Alan Wynne Jones. Nans Morgan oedd yng ngofal y raffl.

Diolch arbennig i Delyth Jones, ac eraill a fu'n cynorthwyo, am drefnu gwledd mor wych ar ein cyfer. Roedd y noson yn gyfle hyfryd i gymdeithasu ar ddechrau gweithgareddau tymor yr hydref.



## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Ar ddechrau tymor newydd brynhawn Mawrth, 13 Medi, yn festri capel Rehoboth, Taliesin, cafwyd dathliad i nodi chwarter canrif ers ailgychwyn Cymdeithas y Chwiorydd gan Myfanwy Rowlands a'r ddiweddar Nesta Evans yn ôl yn 1991. Croesawyd yr aelodau gan Eiriona Metcalfe a chyn mwynhau'r wledd o'n blaenau adroddodd Carys Briddon ychydig o hanes cynnar y Gymdeithas a ffurfiwyd yn y 1950au cynnar gan Mrs J. E. Thomas, yn ôl gwybodaeth a gafwyd mewn rhifynnau o *Lloffion Llangynfelyn* o'r cyfnod hwnnw. Wedyn, cafwyd hanes yr ailgychwyn yn 1991 o'r adroddiadau a ymddangosodd yn *Papur Pawb*, gyda chrynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn honno. Yna, torrodd Myfanwy Rowlands y gacen a wnaed gan Meinir Fleming, a mwynhaodd pawb y te hyfryd a baratowyd gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.



***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Alan Wynne Jones, Capel y Garn

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **4 Rhagfyr**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☽01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☽01970 828662
marian_hughes@btinternet.com